# Cynllun Tai Fforddiadwy (Gostyngiad ar Werth) o dan y Cynllun Datblygu Unedol (CDU)

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Ffurflen Gais am Dystysgrif Cymhwystra i Brynu a Meddiannu Cartref Fforddiadwy

**Hygyrchedd a fformatau amgen**

Os oes angen y ffurflen hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.

Mae'r ffurflen hon yn defnyddio Cymraeg clir lle bynnag y bo modd. Mae rhai termau cyfreithiol neu forgais wedi'u cynnwys gan eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y cynllun.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych i asesu eich cais. Darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd Polisi Cynllunio cyn cyflwyno'r ffurflen hon.

**Gwiriwch mai hon yw'r ffurflen gywir**

Mae'r ffurflen hon ar gyfer eiddo Tai Fforddiadwy (Gostyngiad ar Werth) a gymeradwywyd o dan y Cynllun Datblygu Unedol (CDU).

Os cymeradwywyd yr eiddo o dan y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), bydd angen ffurflen CDLl arnoch yn lle hynny. Cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio os nad ydych yn siŵr pa ffurflen sydd ei hangen arnoch.

Gellir gweld opsiynau tai fforddiadwy eraill ar dudalennau tai gwefan y Cyngor.

**Nid oes angen i chi aros nes bod gennych yr holl dystiolaeth ategol cyn cyflwyno eich cais.**

Gallwch anfon y dystiolaeth ofynnol wrth iddi ddod ar gael. Fodd bynnag, ni allwn asesu eich cais yn llawn nes ein bod wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.

**Os oes angen help arnoch gyda'ch cais, cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio:**

**E-bost:** GBG-DFS@ceredigion.gov.uk

**Ffôn:** 01545 570881

| | |
|---|---|
| 1e | **A fydd plant 16 oed ac iau yn byw yn y cartref?** |
| | **ie** ☐ **Nifer y plant:** **Na** ☐ |
| 1f | **A fydd unrhyw ddibynyddion eraill yn byw yn y cartref (gan gynnwys plant dros 16 oed)?**<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ |
| | **Adran 2 Manylion yr Eiddo** |
| 2a | **Cyfeiriad yr eiddo yr ydych yn gwneud cais amdano:** |
| 2b | **A yw'r eiddo wedi'i adeiladu gan ddatblygwr neu'n adeilad wedi'i hunanadeiladu?**<br><br>**Adeiladwyd gan Ddatblygwr** ☐ **Hunanadeiladwyd** ☐ **Ddim yn Siŵr** ☐ |
| 2c | **A yw'r gwerth marchnad agored wedi'i gytuno rhwng y gwerthwr a'r Cyngor?**<br><br>Os nad yw'r gwerth marchnad agored wedi'i gytuno rhwng y gwerthwr a'r Cyngor, gallai'r cais gael ei oedi. Dylai'r gwerthwr gysylltu â'r Cyngor i gytuno ar werth marchnad agored yr eiddo neu'r eiddo arfaethedig.<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ **Ddim yn Siŵr** ☐ |
| | **Adran 3 Cymhwystra Ariannol** |
| | Mae angen i'r Cyngor wirio a ydych chi ac unrhyw gyd-ymgeisydd yn bodloni rheolau ariannol y cynllun. |
| 3a | **Gwybodaeth am Forgais**<br><br>Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth am forgais hyd yn oed os nad oes angen morgais arnoch, os na allwch gael morgais, neu os gwrthodwyd morgais i chi. |

| | |
|---|---|
| | **Enw'r Darparwr Morgais:**<br><br>Nid oes angen i chi godi morgais, a gallwch newid eich darparwr morgais. |
| 3b | **Ydych chi wedi cynnwys Tystysgrif Morgais, Addewid Morgais neu Benderfyniad mewn Egwyddor sy'n cynnwys enwau POB ymgeisydd?** |
| | **Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdano** ☐ |
| 3c | **A yw'r ddogfen forgais yn nodi uchafswm y morgais sydd ar gael yn glir?**<br><br>Os na, darparwch lythyr neu e-bost ar wahân gan y cwmni morgais (nid brocer) yn cadarnhau uchafswm y morgais sydd ar gael.<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdani** ☐ |
| 3d | **A yw'r uchafswm morgais sydd ar gael i bob ymgeisydd yn llai na 65% o'r pris prynu? Os felly, darparwch dystiolaeth o sut y byddwch yn talu'r swm sy'n weddill sydd ei angen i brynu'r eiddo.**<br><br>Gall enghreifftiau gynnwys datganiadau cynilion, cadarnhad o flaendal rhoddedig, elw o werthu ased arall, neu gadarnhad o gronfeydd eraill sydd ar gael.<br><br>A yw'r dystiolaeth hon wedi'i chynnwys? |
| | **Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdani** ☐ **Ddim yn berthnasol** ☐ |
| 3e | **Gwybodaeth am Incwm**<br><br>Rhaid i BOB ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ariannol. Ticiwch y blychau perthnasol isod a darparwch y dystiolaeth ariannol. |
| | **Ymgeisydd 1** |

| Math o incwm | Tystiolaeth ofynnol | Wedi'i chynnwys | Yn aros amdani | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogedig | Slipiau cyflog y 3 mis diwethaf a'r P60 Diweddaraf | ☐ | ☐ | ☐ |
| Hunangyflogedig | Cyfrifon busnes y 3 blynedd diwethaf | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Math o incwm | Tystiolaeth ofynnol | Wedi'i chynnwys | Yn aros amdani | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi ymddeol neu incwm pensiwn | Manylion pensiwn y 3 mis diwethaf a datganiad pensiwn blynyddol | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Budd-daliadau neu lwfansau | Llythyrau dyfarnu diweddar neu ddatganiadau'r 3 mis diwethaf sy'n dangos taliadau a dderbyniwyd | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Math arall o incwm | Tystiolaeth yn egluro'r incwm a'i ffynhonnell | ☐ | ☐ | ☐ |
| | **Cyd-ymgeisydd** | | | | |
| | **Math o incwm** | **Tystiolaeth ofynnol** | **Wedi'i gynnwys** | **Ynn aros amdano** | **Ddim yn berthnasol** |
| | Cyflogedig | Slipiau cyflog y 3 mis diwethaf a'r P60 diweddaraf | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Hunangyflogedig | Cyfrifon busnes y 3 blynedd diwethaf | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Wedi ymddeol neu incwm pensiwn | Manylion pensiwn y 3 mis diwethaf a datganiad pensiwn blynyddol | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Budd-daliadau neu lwfansau | Llythyrau dyfarnu diweddar neu ddatganiadau'r 3 mis diwethaf sy'n dangos taliadau a dderbyniwyd | ☐ | ☐ | ☐ |
| | Math arall o incwm | Tystiolaeth yn egluro'r incwm a'i ffynhonnell | ☐ | ☐ | ☐ |

| | |
|---|---|
| | **Adran 4 - Cymhwystra fel Person Lleol, Gweithiwr Allweddol, Gofalwr neu Berson sydd angen Gofal** |
| 4a | Rhaid i o leiaf un ymgeisydd fodloni un o'r ffyrdd o gymhwyso a restrir isod. Ticiwch yr opsiwn sy'n berthnasol i chi a darparwch dystiolaeth.<br><br>**Enw'r ymgeisydd sy'n bodloni'r gofyniad hwn:** |
| 4b | Pa opsiwn sy'n berthnasol i chi? |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Person Lleol** ☐<br><br>Ewch i Adran 4c | **Gweithiwr Allweddol** ☐<br><br>Ewch i Adran 4d | **Gofalwr neu Berson sydd angen Gofalwr** ☐<br><br>Ewch i Adran 4e |

| | |
|---|---|
| 4c | **Opsiwn Person Lleol**<br><br>Efallai y byddwch yn gymwys o dan yr opsiwn hwn os yw'r ymgeisydd a enwir uchod wedi byw yng Ngheredigion, neu mewn tref gyfagos neu ardal cyngor cymuned gyfagos, am gyfnod di-dor o 5 mlynedd ar unrhyw adeg yn ystod ei oes.<br><br>Gall tystiolaeth gynnwys:<br><br>a) Gwybodaeth o'r gofrestr etholiadol: Gellir cael hyn gan Adran Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir Ceredigion (Ffôn: 01545 572035). Efallai y codir tâl am hyn.<br>b) Llythyr gan feddygfa: yn cadarnhau'r cyfnod y mae'r ymgeisydd wedi bod wedi'i gofrestru gyda'r practis, a'r cyfeiriad neu'r cyfeiriadau a gofnodwyd ar ei gyfer yn ystod y cyfnod hwnnw.<br>c) Llythyr gan ysgol neu goleg: yn cadarnhau'r cyfnod y bu'r ymgeisydd yn fyfyriwr, a'r cyfeiriad neu'r cyfeiriadau a gofnodwyd ar ei gyfer yn ystod y cyfnod hwnnw. |
| | **Ydych chi wedi cynnwys tystiolaeth person lleol?** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ie** ☐ | **Na** ☐ | **Yn aros amdani** ☐ |
| | Ewch yn syth i Adran 5. | | |

| | |
|---|---|
| 4d | **Opsiwn Gweithiwr Allweddol**<br><br>Gallwch gymhwyso o dan yr opsiwn hwn os yw'r ymgeisydd a enwir uchod yn gweithio, neu'n mynd i weithio, yng Ngheredigion mewn swydd amser llawn barhaol.<br><br>Mae enghreifftiau yn cynnwys athrawon, nyrsys neu staff medrus eraill y GIG, swyddogion heddlu, gweithwyr y gwasanaeth prawf, gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr addysgol, therapyddion galwedigaethol a gyflogir gan awdurdod lleol, gweithwyr y gwasanaeth tân, neu unrhyw swydd arall y mae'r Cyngor yn cytuno ei bod yn darparu gwasanaeth allweddol yng Ngheredigion lle mae wedi ei chael yn anodd recriwtio o fewn y Sir.<br><br>Gall tystiolaeth gynnwys contract cyflogaeth a disgrifiad swydd.<br><br>**Ydych chi wedi cynnwys tystiolaeth gweithiwr allweddol?**<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdani** ☐<br><br>Ewch yn syth i Adran 5. |
| 4e | **Opsiwn Gofalwr neu Berson sydd angen Gofal**<br><br>Gallwch gymhwyso o dan yr opsiwn hwn os oes angen i'r ymgeisydd a enwir uchod fyw yng Ngheredigion er mwyn darparu gofal rheolaidd a sylweddol i berthynas agos, neu er mwyn derbyn gofal rheolaidd a sylweddol gan berthynas agos sy'n bodloni'r gofyniad person lleol.<br><br>Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth sy'n dangos:<br><br>a) pam mae angen gofal arnoch chi neu ar eich perthynas agos;<br><br>b) pam nad yw cartref presennol eich perthynas agos yn addas i chi i gyd fyw ynddo, a pham na ellir ei addasu na'i ymestyn yn rhesymol i'w wneud yn addas;<br><br>c) sut mae eich perthynas agos yn bodloni'r gofyniad Person Lleol; a<br><br>d) sut rydych yn perthyn i'ch perthynas agos.<br><br>Gall tystiolaeth gynnwys: |

| | |
|---|---|
| | • llythyr gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG, meddyg teulu, ymgynghorydd, therapydd galwedigaethol neu weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn egluro'r anghenion gofal;<br>• llythyr neu adroddiad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, y GIG, therapydd galwedigaethol neu weithiwr proffesiynol perthnasol arall yn egluro pam nad yw cartref presennol y perthynas agos yn addas a pham na ellir ei addasu na'i ymestyn yn rhesymol;<br>• tystiolaeth fod y perthynas agos yn bodloni'r gofyniad Person Lleol; a<br>• tystysgrifau geni, tystysgrifau priodas/partneriaeth sifil, dogfennau mabwysiadu, neu ddogfennau eraill sy'n dangos y berthynas deuluol. |
| | **Ydych chi wedi cynnwys tystiolaeth gofalwr neu berson sydd angen gofal?**<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdani** ☐ |
| | **Adran 5 – Gofyniad Prif Gartref a Pherchnogaeth Eiddo** |
| 5a | Rhaid i'r eiddo fod yn unig gartref neu'n brif gartref i chi ac unrhyw gyd-ymgeisydd. Ni ddylech chi nac unrhyw gyd-ymgeisydd fod yn berchen ar unrhyw eiddo preswyl arall.<br><br>I gadarnhau hyn, rhaid ichi gwblhau Datganiad Statudol.<br><br>Mae Datganiad Statudol yn ddatganiad cyfreithiol sy'n cadarnhau, ar ôl i chi brynu'r cartref fforddiadwy, y byddwch chi ac aelodau eich cartref yn byw ynddo fel eich prif gartref ac na fyddwch yn berchen ar unrhyw eiddo preswyl arall.<br><br>**Rhaid i chi barhau i fodloni'r gofyniad hwn cyhyd ag yr ydych yn berchen ar y cartref fforddiadwy. Bydd angen i chi gadarnhau hyn bob blwyddyn.**<br><br>Rhaid gwneud y Datganiad Statudol gerbron cyfreithiwr neu gomisiynydd llwon. Gallant godi tâl am y gwasanaeth hwn.<br><br>Efallai yr hoffech gasglu'r dystiolaeth arall sydd ei hangen ar gyfer eich cais cyn cwblhau'r Datganiad Statudol.<br><br>Mae ffurflen y Datganiad Statudol wedi'i chynnwys ar ddiwedd y ffurflen gais hon. |
| | **Ydych chi wedi cynnwys y Datganiad Statudol?**<br><br>**Ie** ☐ **Na** ☐ **Yn aros amdano** ☐ |

| | Adran 6 – Ble i anfon y ffurflen hon |
|---|---|
| 6a | Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol drwy e-bost, lle bynnag y bo modd, at:<br><br>GBG-DFS@ceredigion.gov.uk<br><br>Os na allwch anfon eich cais drwy e-bost, gallwch ei bostio i'r cyfeiriad isod. Os hoffech i unrhyw ddogfennau gwreiddiol gael eu dychwelyd atoch, nodwch hyn mewn llythyr eglurhaol.<br><br>Polisi Cynllunio, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA<br><br>**Peidiwch ag oedi cyn cyflwyno eich cais os ydych yn dal i aros am rai dogfennau.** Ticiwch "Yn aros amdano/amdani" lle bo hynny'n briodol a chyflwynwch y dogfennau pan fyddant ar gael.<br><br>**Hysbysiad Preifatrwydd**<br><br>Darllenwch sut mae'r Cyngor yn trin data a gesglir drwy'r ffurflen gais hon:<br><br>https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-polis<br><br>**Beth Sy'n Digwydd Nesaf?**<br><br>1. Byddwn yn gwirio eich cais a'r dystiolaeth ategol.<br>2. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth os oes unrhyw beth as goll neu'n aneglur.<br>3. Os nad yw gwerth marchnad agored yr eiddo wedi'i gytuno eto, bydd y Cyngor yn trefnu prisiad.<br>4. Os ydych yn gymwys, byddwn yn cyhoeddi Tystysgrif Cymhwystra ac yn ysgrifennu at y gwerthwr er mwyn cadarnhau eich bod yn gymwys i brynu a meddiannu'r cartref fforddiadwy.<br>5. Mae'r dystysgrif yn ddilys am 18 wythnos o'r dyddiad y caiff ei chyhoeddi. Er mwyn ailgyhoeddi, mae angen slipiau cyflog y 3 mis diwethaf a gwybodaeth am eich morgais.<br>6. Gall y pryniant wedyn fynd rhagddo drwy'r broses arferol o brynu tŷ, yn amodol ar unrhyw wiriadau sy'n ofynnol gan eich cyfreithiwr, eich benthyciwr morgais a'r cytundeb tai fforddiadwy. |

| 6b | **Rhestr Wirio Tystiolaeth**<br><br>Ticiwch y dystiolaeth yr ydych yn ei chyflwyno gyda'ch cais. Os ydych yn dal i aros am ddogfen, ticiwch "Yn aros amdani". |
|---|---|

| **Tystiolaeth ofynnol** | **Wedi'i chynnwys** | **Yn aros amdani** | **Ddim yn berthnasol** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif Morgais, Addewid Morgais neu Benderfyniad mewn Egwyddor sy'n cynnwys enwau POB ymgeisydd | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Llythyr neu e-bost yn cadarnhau'r uchafswm morgais sydd ar gael, os nad yw hyn wedi'i ddangos yn y ddogfen forgais sy'n cynnwys enwau POB ymgeisydd | ☐ | ☐ | ☐ | |
| Tystiolaeth o gyllid i dalu'r diffyg yn y pris prynu (pan fo'r morgais yn llai na 65%) | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Ymgeisydd 1**<br><br>Slipiau cyflog y 3 mis diwethaf neu gyfrifon hunangyflogedig | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Ymgeisydd 1**<br><br>Y P60 diweddaraf | ☐ | ☐ | ☐ | |
| **Ymgeisydd 1** | ☐ | ☐ | ☐ | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Manylion pensiwn, manylion budd-daliadau neu dystiolaeth o incwm arall, os yw hyn yn berthnasol | | | | |
| | **Tystiolaeth ofynnol** | **Wedi'i chynnwys** | **Yn aros amdani** | **Ddim yn berthnasol** | **Nodiadau** |
| | **Cyd-ymgeisydd**<br>Slipiau cyflog y 3 mis diwethaf neu gyfrifon hunangyflogedig | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | **Cyd-ymgeisydd**<br>Y P60 diweddaraf | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | **Cyd-ymgeisydd**<br>Manylion pensiwn, manylion budd-daliadau neu dystiolaeth o incwm arall, os yw hyn yn berthnasol | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | Tystiolaeth person lleol | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | Tystiolaeth gweithiwr allweddol, os yw hyn yn berthnasol | ☐ | ☐ | ☐ | |
| | Datganiad Statudol | ☐ | ☐ | ☐ | |

## Ffurflen y Datganiad Statudol ynghylch Preswylio a Pherchnogaeth

**Rydw i/ Rydym ni,** ______________________________

______________________________

o ______________________________

______________________________

yn datgan yn ddifrifol ac yn ddiffuant fel a ganlyn:-

1. Rydw i/Rydym ni wedi gwneud cais i brynu'r eiddo a adwaenir fel ac sydd wedi'i leoli yn

______________________________

______________________________

yn Sir Ceredigion (y cyfeirir ato fel "yr eiddo" yn y datganiad hwn). Mae'r eiddo wedi'i ddynodi'n annedd fforddiadwy yn unol â rhwymedigaethau cynllunio a wnaed mewn perthynas â'r eiddo o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Rydw i/Rydym ni [ynghyd ag aelodau o fy nheulu/ein teuluoedd] yn bwriadu meddiannu'r eiddo fel fy/ein prif breswylfa yn unol â'r rhwymedigaethau dywededig ac yn cadarnhau na fyddaf/na fyddwn yn berchen ar unrhyw lety arall ar ôl prynu.

3. Rydw i/Rydym ni yn gwneud y datganiad difrifol hwn yn gydwybodol gan gredu bod yr un peth yn wir ac yn rhinwedd darpariaethau Deddf Datganiadau Statudol 1835.

Llofnod ______________________________ Llofnod y Partner (os yw’n berthnasol) ______________________________

Datganwyd yn ______________________________

Yn Sir ______________________________ Dyddiedig ______ Dydd ______________ 20 ______

Ger fy mron, ______________________________ Cyfreithiwr/Comisiynydd Llwon

Manylion Cyfeiriad/Cwmni

______________________________